PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 30 Gorffennaf 27, 2023 50c.

## Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd

Pwy all beidio canu moliant iddo ef?
Y mae Brenin Seion wedi dod i'r dref?

Yn dilyn llwyddiant ysgubol y gymanfa a gynhaliwyd ar ddydd Sul 15 Mai 2022, a hynny yn dilyn tair blynedd o fethu cynnal y digwyddiad arbennig hwn, bendith o'r newydd oedd gallu ailymgynnull unwaith eto eleni a hynny er mwyn parhau i gynnal digwyddiad pwysig yn hanes rhai o Eglwysi Gofalaeth Bröydd Teifi wrth i Gymanfa Ganu Undebol Annibynwyr Pencader a'r Cylch, sy'n cynnwys Eglwysi Annibynnol Tabernacl, Gwyddgrug, Capel Nonni a Gwernogle, ddod ynghyd i foli drwy gân.

Ar ddydd Sul 21 Mai 2023 cafwyd dwy oedfa fendithiol iawn yng nghapel Gwyddgrug, yng nghwmni'r arweinydd gwadd eleni, sef Daniel Rees o Waungilwen; oedfa'r plant fu yn y prynhawn a chyda chymorth Band y Diarhebion, cawsom oll fwynhad o wrando ar y plant yn mwynhau canu yn nwylo medrus Daniel. Roedd hi'n braf cael cyfle i dreulio'r prynhawn yn sgwrsio ag eraill yn ystod y te a baratowyd gan aelodau Gwyddgrug.

Tro'r oedolion oedd hi gyda'r hwyr ac ni chawsom ein siomi gyda Daniel wrth y llyw unwaith yn rhagor ac yn ei ffordd ddihafal ei hun, llwyddodd i lywio'r cantorion brwdfrydig er mwyn i bawb fwynhau noson o ganu cynulleidfaol bendithiol iawn a hynny mewn mynegiant pedwar llais. Cafwyd seibiant yn ystod yr hanner amser a, chyda chymorth Marian O'Toole wrth y piano, diolch iddo am ei gyfraniad fel arweinydd Côr Clwb Rygbi Castellnewydd Emlyn - am ffordd wych o ddiddanu'r gynulleidfa rhwng yr emynau.



### Diolchiadau

Yr un yw'n diolch i aelodau'r côr am ddod i gynorthwyo gyda'r canu cynulleidfaol. Mae ein diolch yn fawr i Daniel Rees am ei waith clodwiw gyda'r plant a'r oedolion yn ystod y Gymanfa ac yn ystod y rihyrsal fawr ar 7 Mai a hynny'n gyfle i bawb fireinio'r canu a dysgu'r nodau yn barod ar gyfer y gymanfa. Diolch i aelodau'r Tabernacl am eu gwaith wrth y rhannau arweiniol yn ystod y rihyrsal fawr, Celyn Davies ac Elsi Williams yn y prynhawn a Gwynfor Davies a Marc Jones yn yr hwyr.

Diolch i'r organyddion Marc Jones, Tabernacl a Valerie Jones, Capel Nonni am eu gwasanaeth wrth yr organ yn ystod y ddwy oedfa, am eu cymorth yn ystod rihyrsals y flwyddyn ac i Nancy Jones, Tabernacl am ei gwaith cywrain yn dysgu'r emynau. Diolch i gyfeillion y gymanfa am ddod i gefnogi a chynorthwyo gyda'r canu. Llywyddwyd y ddwy oedfa gan ein gweinidog, y Parchedig Chris Bolton, a diolch iddo am ei eiriau pwrpasol. Cyflwynwyd y rhannau arweiniol gan Chris Bolton yn oedfa'r prynhawn ac Ifor Jones, Gwyddgrug yn ystod oedfa'r hwyr, a diolch i Betsan Jones, Gwyddgrug am

*parhad ar dudalen 7*

## CAPEL SALEM, CAERNARFON
## Y Goron Driphlyg!



Cafwyd digwyddiad hapus fore Sul 7 Mai pan fedyddiwyd tri baban. Bendithiwyd teulu Carys Owen (Nain) gyda 3 baban newydd y llynedd gan i bob un o'i meibion a'u gwragedd gael plentyn newydd.

Yn gyntaf ganwyd Osian Llwyd Owen i Rhodri a Bethan, brawd bach i Alys, yna ganwyd Nedw Gwyn Owen i Dylan a Sioned brawd bach i Greta ac yn olaf ganwyd Elsi Jen Wyn Owen i Carwyn a Manon, chwaer fach i'r efeilliaid Ifan a Gwen ac i Tomos. Fe'i bedyddiwyd gan y gweinidog Parchg J. Ron Williams.

# Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol: Rhosllannerchrugog 2023

*Dyma drydedd ran adroddiad y Parchg Dyfrig Rees yng nghyfarfodydd yr Undeb.*

### Y teulu Cristnogol



Y mae'r Undeb yn elwa'n fawr o'i berthynas ag amryw o gyrff eglwysig ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iddynt, hefyd, gobeithio. Yn eu plith:

### Cytûn

Daeth tymor gwasanaeth y Parchg Aled Edwards fel prif weithredwr i ben gyda'i ymddeoliad ddiwedd mis Mawrth. Wrth ddiolch iddo am ei waith dros y blynyddoedd yr ydym gyda llawenydd yn croesawu ei olynydd y Parchg Siôn Brynach i'r swydd, gan ddymuno pob bendith a daioni iddo yn ei waith. Daeth Dr Jennie Hurd i olynu Dr Patrick Coyle fel llywydd. Allwn ni ddim cyfeirio at Cytûn heb gydnabod ein dyled a'n diolch i'r Parchg Gethin Rhys am ei arweiniad a'i gyngor gwerthfawr yntau.

### CWM

Nodais eisoes y rhaglenni sy'n cael eu hariannu gan nawdd rhaglen genhadol CWM ac yr ydym wedi profi gwerth yr haelioni hwnnw dros y blynyddoedd. Byddwn yn cofio, wrth gwrs, nad ffynhonnell nawdd ariannol yn unig mo CWM a bod nifer ohonom wedi elwa'n fawr o fod mewn digwyddiadau a drefnwyd gan CWM. Rhannodd y Llywydd rhywfaint o gyffro cynhadledd rhanbarth Ewrop gynhaliwyd yn Amsterdam yn ddiweddar yn nhudalennau'r *Tyst*.

Yn ystod y mis ymwelodd dau o'n plith â Taiwan ar gyfer cyfarfod blynyddol CWM, Jill-Hailey sy'n aelod o fwrdd CWM a Dylan Rhys fel cynrychiolydd yr Undeb.

Cam bwriadol ar ran CWM oedd ymweld â Taiwan, ynys sy'n sefyll rhwng dau o bwerau mawr y byd China ac UDA. Gwlad dan warchae yw, a'i phobl yn ymwybodol fod taflegrau rhyfel wedi eu hanelu atynt. Amcan CWM wrth ymweld â nhw oedd dangos i'r bobl hyn nad ydynt ar eu pennau eu hunain, bod yna frodyr a chwiorydd yn ymwybodol o'u hargyfwng ac yn cofio amdanynt.

### Cyngor Eglwysi'r Byd

Braint fawr iawn i mi oedd cael cynrychioli'r Undeb yng nghymanfa'r Cyngor, yn Karlsruhe, yn ne-orllewin yr Almaen yn yr hydref a bod ymhlith miloedd o Gristnogion a ddaeth ynghyd i ddathlu'r ffydd, i dystio i fawrion weithredoedd Duw. Llywydd y Cyngor ar y pryd oedd Dr Agnes Abuom o Kenya. Gyda thristwch y clywsom am ei marwolaeth ddechrau'r mis yma. Does dim amheuaeth mai cymeriad mawr a chanolog y Cyngor a'r gymanfa oedd Dr Ioan Sauca, ysgrifennydd dros dro'r Cyngor. Offeiriad yn y traddodiad Uniongred o Romania, yn bennaeth Athrofa Bossey yn Genefa, cymodwr, codwr pontydd, un fu yn ein henw ni yn Wcráin, yn Rwsia, yn Syria, yn Israel a Phalestina, yn ein henw ni ac yn enw Iesu, yn hyrwyddo heddwch a chyfiawnder. Nid rhyfedd wedyn ei ddatganiad, 'Os na fyddai gennym Gyngor Eglwysi'r Byd byddai rhaid i ni ei ddyfeisio.'

### Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd

Dr Hefin Jones, yw'n cynrychiolydd ar y corff hwn ac aelod o'i bwyllgor gweinyddol. Cafwyd adroddiad gan Hefin yn *Y Tyst* yn ddiweddar am ei ymweliad â chyfarfod rhanbarth Ewrop yn Thesaloniki. Mor briodol ganddo'r nodyn am gyfeiriad y llywydd, y Parchg Najla Abou Sowan Kassab, gweinidog yn Synod Efengylaidd Syria a Libanus at Kintsugi, at y gelf Siapaneaidd o ailgydio darnau toredig o lestri â lacr wedi ei gymysgu ag aur neu arian gan dynnu sylw at ein hangen i weld torri ac atgyweirio yn rhan annatod o fywyd.

### Cymorth Cristnogol

Rydym yn ymwybodol bod CC yng Nghymru wedi bod mewn sefyllfa wannach na'r arfer y misoedd diwethaf yma wrth i Mari McNeill fynd ar gyfnod mamolaeth ac i'r broses o geisio rhywun i lanw'r bwlch fod yn hirach na'r disgwyl. Llwyddwyd i benodi'r Parchg Andrew Sully i'r rôl honno. Rydym yn ddiolchgar am yr arweiniad a gawsom gan y tîm wrth inni baratoi ar gyfer ein hapêl arbennig.

### Cymdeithas Annibynwyr y Byd

Denwyd neb o'n plith i fentro am Fiji ymhen rhyw fis ar gyfer y gynhadledd ac rwy'n meddwl mai'r un yw'r sefyllfa ymhlith y Congregational Federation. Does gennyf ond edmygedd o'r cwmni triw a gweithgar ar bwyllgor rhanbarth Ewrop, wrth geisio cydweithio â'n cefndryd annibynnol ar draws yr Iwerydd.

### Panel Diogelu

Diolch i Mrs Julie Edwards a Mrs Siân Jones am y gwaith pwysig a gyflawnant yn ein henw. Allwn ni ddim pwysleisio gormod pwysigrwydd y gwaith hwn. Gwnaeth Emlyn Davies gyfraniad aruthrol fel cadeirydd. Daw ei dymor i ben ddiwedd y flwyddyn ac mae'n diolch yn fawr iddo am ei arweinaid a'i ofal dros waith y panel.

### Cyngor Ysgolion Sul

Rydym yn ddiolchgar iawn i Aled Davies am ei waith a'i frwdfrydedd.



Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 27 2023 RHIF 126


# Cyrsiau Haf i blant a phobl ifanc yng Nghanolfan Coleg y Bala

Gyda'r ysgolion ar gau mae tîm Gwasanaeth Ieuenctid a Phlant EBC a gwirfoddolwyr o eglwysi eraill ar draws Cymru yn edrych ymlaen at groesawu llu o blant a phobl ifanc ar y cyrsiau hyn i'r Bala. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, felly cysylltwch yn fuan os oes diddordeb gan unrhyw rai yn eich eglwysi ac ymrowch i ofyn i Dduw fendithio'r rhai fydd ar y cyrsiau hyn i gyd yr haf hwn.

**CWRS Ieuenctid 31 Gorffennaf–4 Awst:** i flynyddoedd uwchradd 7–10
Gwersyll haf i bobl ifanc yn llawn gemau, crefft, addoliad, sgyrsiau Beiblaidd, gemau dŵr, heriau gwallgof, noson yr ŵyl, a bydd taith i Flip Out Caer. Y gost yw £118 (1/2 pris am 2il/3ydd plentyn o'r un teulu), sy'n cynnwys yr holl fwyd, llety a gweithgareddau. Archebwch le heddiw fan hyn




**Anhrefn Awst 14–17 Awst:** i blant 8–11 oed
Archebwch heddiw fan hyn




**Souled Out 19–24 Awst:** i ieuenctid (15+), myfyrwyr ac oedolion
Mae Souled Out yn gyfle grêt ar ddiwedd yr haf i ddal i fyny gyda hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mwynhau llwyth o weithgareddau hwyl! Y prif sesiynau yw uchafbwynt Souled Out bob amser, wrth i ni addoli Duw a dysgu mwy amdano wrth wrando ar sgyrsiau o'r Beibl. Bydd rhai seminarau ymarferol yn ystod yr wythnos hefyd i'n harfogi a'n hysbrydoli, a grwpiau bach i'n helpu i feddwl drwy'r hyn rydyn ni'n ei glywed.

Bydd llwyth o bethau hwyl i bawb eu gwneud hefyd! Dros y blynyddoedd, rydyn ni wedi mwynhau *inflatables* mawr, caffi acwstig, gemau pêl-droed, crefftau creadigol, padlfyrddio, S'mores rownd y tân, a mwy! Felly, bydd digon o bethau i'w mwynhau eto eleni!

I'r rhai sy'n teithio o'r de neu o ganolbarth Cymru, ac os bydd digon o ddiddordeb, bydd bws mini yn cael ei drefnu am gost fach o £12 (£6 bob ffordd). Bydd gofal plant hefyd ar gael bob bore. **Cost yr wythnos yw** £128. Mae'r pris yn cynnwys y digwyddiad, bwyd, gweithgareddau a 5 noson o lety. (Os ydych am wneud eich trefniadau llety eich hun, neu am ddod am y dydd, cysylltwch â Choleg y Bala ynglŷn â'r gost o ddod i Souled Out.) Peidiwch â cholli allan! Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymuno â ni am haf i'w gofio yn SOULED OUT 23! Archebwch heddiw fan hyn.




**Os nad yw'n bosibl i chi archebu ar-lein neu os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, plis cysylltwch â ni: colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565, a gallwn ni bostio copi o'r ffurflen gofrestru atoch chi.**
**Gallwch gael rhagor o fanylion a dolenni i'r cyrsiau a'r ffurflenni archebu ar wefan y Coleg: www.colegybala.org**

Ni ddylai talu am gwrs fod yn rhwystr i unrhyw un ddod. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch arweinydd lleol neu ag Angharad: Coleg y Bala, Ffordd Ffrydan, Y Bala, Gwynedd, Ll23 7YB.

## Cyflwyno Beiblau yn Ysgol Bancyfelin

Pleser gan aelodau Capel Bancyfelin, ger Caerfyrddin, oedd cyflawni'r orchwyl flynyddol o gyflwyno Beibl yr un i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol Bancyfelin ddiwedd tymor yr haf. Cyflwynir y Beiblau bob blwyddyn er cof am y ddiweddar Miss Sallie Walters a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar o Gapel Bancyfelin ac a oedd hefyd yn gyn-ddisgybl o'r ysgol.




## Gair o Gydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Sian John, priod annwyl y Parchedig Denzil John, Caerffili, yn ystod y dyddiau diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad i Denzil a'r plant, Luned ac Aled, a'u teuluoedd hwythau.

Mae Denzil wedi bod yn golofnydd rheolaidd i *Cenn@d* ers y cychwyn ac i *Seren Cymru* am dros 20 mlynedd cyn hynny, gyda Sian bob amser yn bâr diogel o lygaid craff cyn gyrru'r golofn i'w chyhoeddi. Coffa da amdani.

*Y golygyddion*

# *Gair ar Gân*, emynau i blant gan Gerald Morgan

Newydd ei gyhoeddi y mae'r llyfryn hwn o emynau gan yr awdur, Gerald Morgan o Dregaron. Mae eisoes wedi cyhoeddi sawl llyfryn arall dros y blynyddoedd diwethaf hyn, ond dyma'r tro cyntaf, os cofiaf yn iawn, iddo gyflwyno inni lyfryn o emynau plant yn benodol.

Mae gennym ni yng Nghymru, wrth gwrs, draddoddiad hir a chyfoethog o ran emynyddiaeth, ac mae hynny'n cynnwys emynau i blant. Nid mor aml â hynny, ychwaith, y cafwyd yr emynwyr yn cyfansoddi tonau i'w hemynau. Ond dyna a ddigwydd yn hanes yr awdur hwn – ac yn wir fe geir yr un patrwm yn ei holl lyfrynnau. O glywed yr emynau'n cael eu canu gan blant ysgolion cylch Tregaron, sef Ysgol Henry Richard, Ysgol Pontrhydfendigaid ac Ysgol Rhos Helyg, mae yma gynhesrwydd swynol ac agosatrwydd gafaelgar yn y cyfan. Mae yma gyfansoddiadau a fyddai'n briodol i blant ym mhob rhan o Gymru, p'un ai mewn capel neu eglwys, ac, wrth reswm, mewn ysgolion. Byddai'r rhain, er enghraifft, yn eu benthyg eu hunain i'r dim i'r addoli ar y cyd a ddigwydd yn rheolaidd mewn ysgolion.

Mae emynau yma sydd wedi bod yn fuddugol mewn eisteddfodau, a gellir gweld pam. Ceir mynegiant uniongyrchol, teimladwy, ym mhob un o'r 12 emyn a gynhwysir yn y llyfryn. Mae'r mynegiant yn syml, yn hollol ddealladwy i blant, a'r arddull yn arddull lafar, bob dydd. Peth arall sy'n amlwg amdanyn nhw yw eu bod yn driw i'r Beibl, yn gwbl Grist-ganolog, ac yn efengylaidd eu natur. Fwy nag unwaith defnyddir dyfeisiau megis gosod y plentyn yn gymeriad yn yr emyn, yn gweld y croeshoelio mewn un enghraifft neu borthi'r pum mil mewn enghraifft arall, yn union fel petai'r plentyn yno yng nghwmni'r teulu. Mewn enghreifftiau eraill, eir at hanes plant y Beibl, megis Dafydd yn ei frwydr yn erbyn Goliath a Samuel yn y deml, fel y gall y plant sy'n darllen neu'n canu'r geiriau uniaethu â nhw. Defnyddir y dyfeisiau hyn yn effeithiol iawn. Nid oes byth gyfaddawdu yma â gwirioneddau'r Beibl, ac yn arbennig felly'r iachawdwriaeth sydd i'w chael yng Nghrist yn unig.

Wedi dweud hyn i gyd, mae ambell lithriad yn y llyfryn. Mae'r rhain weithiau'n llithriadau gramadegol, pethau fel "I ddod at ef ei hun" (yn lle "I ddod ato ef ei hun") ac "Ond am llef Anwylyd Duw" (yn lle "Ond am lef Anwylyd Duw"). Ambell waith mae llinell neu odl yma ac acw'n rhyddieithiol yn hytrach nag yn delynegol. Rhaid pwysleisio, serch hynny, mai mân frychau yw'r rhain, ac nid ydynt yn rhwystr rhag rhoi mynegiant clir i'r gwirioneddau mawr.

Mae'r gerddoriaeth wedyn yn adleisio – ac yn wir yn hyrwyddo – arddull yr emynau. Canlyniad hyn i gyd yw fod y tonau'n tueddu i ddilyn patrymau tebyg, ond maen nhw, bob un ohonyn nhw, yn syml, yn ddirodres, ac o'u clywed ar y recordiau a gefais i, daw'n




amlwg fod y plant wrth eu bodd yn eu canu. Gallaf gymeradwyo'r llyfryn hwn yn galonnog i chi.

*Gareth Jones*
*Llambed*

Gellir prynu'r llyfryn am £7.50, gan gynnwys cludiant, oddi wrth Gerald Morgan, Hafod Wen, Pwllswyddog, Tregaron, Ceredigion, SY25 6JG, neu drwy ebost: cyfrolau@yahoo.com. Bydd £5 o bob gwerthiant yn mynd i Gronfa Nyrsys Macmillan.

# *Rhedeg yr Yrfa* – lansio cyfrol ddiweddaraf D. Ben Rees



Elin Boyd, y Parch. Robert Parry, Dr John Williams, Norman Closs Parry, y Parch Ddr D. Ben Rees a'r Parch. Aled Davies


Cafwyd noson arbennig iawn yn Eglwys Bethel, Lerpwl, ar 10 Gorffennaf i lansio llyfr diweddaraf y Parch. Ddr Athro D. Ben Rees, sef *Rhedeg yr Yrfa*. Er ei fod wedi ymddeol, mae Ben yn parhau i fod yn awdur toreithiog, gan lunio erthyglau, pamffledi a llyfrau. Mae ei gyfrol ddiweddaraf yn cynnwys ei sylwadau ar ei weinidogaeth dros y 60 mlynedd diwethaf hyn, yn ogystal â chasgliad o rai o'i bregethau, myfyrdodau ac anerchiadau .

Y Parch. Robert Parri oedd llywydd y noson a'r Parch. Aled Davies (Cyhoeddiadau'r Gair) oedd yr arweinydd. Roedd ffrind mynwesol i Ben a'i wraig, Meinwen, sef Norman Closs Parry, wedi llunio cerdd ardderchog am yr achlysur. Swynwyd y gynulleidfa gan gyfraniadau cerddorol grŵp o Eglwys Bethel a'r Parch. David Williams, caplan Ysbyty Alder Hey.

Cafwyd anerchiadau cryno gan Elin Boyd a'r Dr John Williams ar ran eglwysi'r cylch, a chyfeiriodd y ddau ohonynt at ddawn bregethu'r awdur a'i waith canmoladwy fel gweinidog.

Cyflwynodd Aled Davies y copi gyntaf o'r gyfrol newydd i'r awdur. Diolchodd Ben i bawb am eu cyfraniadau ac am y geiriau caredig a fynegwyd.

Ar ddiwedd y noson, mynegwyd ein dymuniadau gorau i Ben a Meinwen ar



Aled Davies, Cyhoeddiadau'r Gair, yn cyflwyno copi o'r gyfrol i'r awdur, D. Ben Rees

ddathlu eu priodas ddiemwnt ar ddiwrnod olaf mis Gorffennaf.

Roedd lluniaeth ysgafn ar gael yn dilyn y cyfarfod, a manteisiodd llawer ar y cyfle i brynu'r gyfrol sydd ar gael mewn clawr caled neu feddal; pris: £14.99 (clawr meddal).

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 34 Dau dad, a dau unig fab (Rhan 1)

### Darllen: Genesis 22:1–24

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 151)

Un o hanesion mwyaf cyfarwydd Genesis yw cynnwys y bennod y tro hwn. Rwy'n cofio'n iawn cael fy nysgu am yr hanesyn yma yn blentyn yn yr ysgol Sul, ond rwy'n methu cofio i ba raddau y gwnaeth Mrs Davies, ein hathrawes, geisio esbonio'r hanes wrthym. Yn wir, ar un olwg, mae yna rywbeth brawychus am yr hanes, ac erbyn hyn mae'n debyg y byddai'n perthyn, yng ngolwg llawer, i'r hanesion hynny nad ydych yn eu hadrodd wrth blant! Fel yn achos hanesion eraill, yr wyf am ddiogelu eto ein bod yn darllen y Beibl i gyd fel llyfr sy'n llyfr am Dduw, ac yn benodol yn llyfr am Iesu. Fe gofiwch imi ddyfynnu ymateb Iesu i'r Ysgrifenyddion droeon yn ystod y gyfres hon: 'Yr ydych yn chwilio'r Ysgrythurau oherwydd tybio yr ydych fod ichwi fywyd tragwyddol ynddynt hwy. Ond tystiolaethu amdanaf fi y mae'r rhain' (Ioan 5:39). Gyda'r allwedd yma yr wyf am edrych ar yr hanes dros y pythefnos nesaf.

Yn ei gyd-destun, mae'r hanes yn brawf o ufudd-dod Abraham, yn ei holi a yw'n parhau i ymddiried yn Nuw gan ei fod bellach wedi gweld sylweddoli'r addewid am fab. Mae'n siŵr fod amryw ohonoch ar eich gorau yn eich bywyd gweddi, yn y sylw y byddwch yn ei roi i air Duw ac i addoli Duw, yn ystod y cyfnodau hynny lle y byddwch yn disgwyl, yn ceisio, yn edrych am atebion i sefyllfa ddyrys. Beth am eich bywyd wedi derbyn ateb? Dyma'r cwestiwn sy'n cael ei osod i Abraham ac mae'n ateb y cwestiwn yn rhagorol. Yn wir, mae'r hanes, yn ôl un esboniwr, yn darlunio'r prawf hwn fel rhywbeth ddaeth ag Abraham i binacl arbennig yn ei ymddiriedaeth, yn hytrach na rhywbeth a chwalodd ei hyder yn naioni Duw.

Yn sgil y cais arswydus yma, rydym yn gweld cariad a ffydd yn llifo; down wyneb yn wyneb ag un sy'n tybio bod doethineb diwall yn 'ffolineb Duw'. Yn y lle yma mae hyd yn oed yn mynegi ei hyder yn y Duw sy'n medru atgyfodi'r meirw. Sylwch ar adnod 5, 'Arhoswch chwi yma gyda'r asyn; mi af finnau a'r bachgen draw ac addoli, ac yna dychwelwn atoch.' Nid camarwain y bechgyn sy'n digwydd yma, fel y dywed awdur yr adnodau yn Hebreaid 11, adnodau sy'n cyfeirio'n ôl at y digwyddiad: 'Trwy ffydd, pan osodwyd prawf arno, yr offrymodd Abraham Isaac. Yr oedd yr hwn oedd wedi croesawu'r addewidion yn barod i offrymu ei unig fab … Oblegid barnodd y gallai Duw ei godi hyd yn oed oddi wrth y meirw; ac oddi wrth y meirw, yn wir, a siarad yn ffigurol, y cafodd ef yn ôl.' (Hebreaid 11:17,19)

Wrth ddarllen geiriau'r prawf yn adnod 2 byddaf yn cael fy nharo gan her eithafol y cais, ond yr un pryd yn rhyfeddu at yr adlais clir sydd yma o fwriad Duw ei hun mewn perthynas ag Iesu: 'Cymer dy fab, dy unig fab Isaac, sy'n annwyl gennyt, a dos i wlad Moreia, ac offryma ef yno yn boethoffrwm ar y mynydd a ddangosaf iti.' Dyma fab yr addewid; dyma'r had fydd yn gyfrwng bendith; dyma'r rhodd arbennig a gwyrthiol, a dyma'r un y mae Abraham i'w offrymu.

Er nad wyf am ddechrau astudiaeth ar hanes Isaac, tybed faint rydych chi'n ei wybod am hwn? Mae'r disgwyl amdano'n cael mwy o le yn Genesis na hanes ei fywyd, a does ond tri pheth braidd y byddwn yn eu cofio: y digwyddiad hwn, y ffaith iddo ailagor ffynhonnau, a'r modd y cafodd ei dwyllo pan geisiodd Jacob y fendith ganddo. Yng ngeiriau Derek Kidner, 'Daw Isaac i ganol y llwyfan, nid oherwydd yr hyn y mae'n ei wneud ond beth mae'n ei ddioddef. Dyma ei ran, mae'n debyg, er ei fod yn ddigon di-nod o ran cyfraniad fel arall. Bydd eraill yn cyflawni rhyfeddodau; i hwn, does dim ond arddangos, fel dioddefwr tawel, y patrwm hwnnw ar gyfer yr had etholedig, patrwm o fod yn was sy'n cael ei aberthu.' A sylwch ar y lleoliad sy'n cael ei ddewis: 'dos i wlad Moreia'; yn y Testament Newydd, cyffiniau bryn Calfaria, ac ar y mynydd hwnnw, ganrifoedd yn ddiweddarach, mae Tad arall yn rhoi ei unig Fab.

Yn y cyfan, mae ymddiriedaeth Abraham yn cael ei rhoi ar un ochr i'r glorian, ac ar yr ochr draw y mae synnwyr cyffredin, cariad rhiant ac uchelgais bywyd. Roedd popeth yn milwrio yn erbyn ufudd-dod, a buan iawn y byddai wedi medru rhesymu bod yna wrth-ddweud yn y cais yma o'r nefoedd. Ond cofiwch, 'Yr oedd yr hwn oedd wedi croesawu'r addewidion yn barod i offrymu ei unig fab' (Hebreaid 11:17). Mae Abraham yn gwbl sicr bellach fod Duw yn ffyddlon, yn ddi-droi'n-ôl yn ei fwriadau, ac yn fwy nag abl i sylweddoli ei fwriadau, hyd yn oed pan fyddwn ni'n gweld olwynion ei ragluniaeth yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. 'Felly cododd Abraham yn fore' – mae'n codi ar bwys ei hyder yn y Duw oedd yn ei alw i ufuddhau pan nad oedd ef efallai'n medru dirnad pen draw'r galwad.

1. Edrychwch eto ar emyn Pedr Fardd (*Caneuon Ffydd*, rhif 677):
   Rhagluniaeth fawr y nef, o'm plaid
   ei holl olwynion try,
   agorai'r môr, pe byddai raid:
   mae'r afael sicraf fry.

   Pa mor bwysig yw deall ffyrdd Duw? Beth fedrwn ei ddeall a beth fyddwn ni yn fwy na bodlon ei adael i ddoethineb diwall Duw?
2. Un mab oedd gan Abraham, ac un Mab sydd gan Dduw. Mae'r naill bron yn marw, y llall yn marw. Beth mae'r hanes yn eich dysgu am yr hyn mae Duw wedi ei wneud a'r hyn y mae hawl ganddo i'w ofyn?
3. Beth yw cyfrinach ufudd-dod, yn ôl yr hanes hwn?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
Bydd y gyfres nesaf yn cael ei darlledu o fis Medi ymlaen

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 30 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
**Emynau ein prifeirdd: rhaglen 2**
R. Alun Evans yn bwrw golwg ar ragor o emynau gan rai o'n prifeirdd
**Sul, 30 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Aled Davies, Chwilog

# Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd – *parhad*

groesawu pawb i oedfa'r hwyr. Talwyd y diolchiadau swyddogol gan Chris a hynny yn absenoldeb Cadeirydd Pwyllgor y Gymanfa, Eric Jones, Gwernogle. Diolchwn iddo am flynyddoedd lawer o wasanaeth i bwyllgor y Gymanfa a dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol. Diolch i aelodau capel Tabernacl am gynnal y rihyrsal fawr ac i aelodau eglwys Gwyddgrug am gynnal y Gymanfa.

### Sain orfoleddus

Daeth oedfa fendithiol yr hwyr i ben yn sain orfoleddus yr emyn dôn o waith D. Vaughan Thomas, sef 'Tyddyn Llwyn' a geiriau pwrpasol Moelwyn:

Iesu a'm dwg i'r ddinas gadarn,
derfydd crwydro'r anial maith,
canu wnaf y gainc anorffen
am fy nwyn i ben fy nhaith;
iachawdwriaeth
ydyw ei magwyrydd hi.

Dengys geiriau pwrpasol T. R. Jones i gyfeiliant yr emyn dôn o waith William Richards, sef 'Andalusia' nad oes angen tyrfa fawr i allu mynegi moliant trwy gân neu i werthfawrogi'r briodas hyfryd rhwng gair a thôn, felly 'i blith y ddau neu dri yr awron tyred di ... tyrd yn ddi-oed i gadw d'oed, a doed dy ddwyfol wynt.' Boed hir oes i'r traddodiad o gydganu moliant mewn pedwar llais yn y gornel fach hon o'r sir a chamwn ymlaen yn hyderus at gymanfaoedd y dyfodol drwy sicrhau lle teilwng i ganu cynulleidfaol ym Mröydd Teifi.

**Siân Thomas, Tabernacl**



CYFLE CYFFROUS I WEINIODOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun EFE,
(3 diwrnod yr wythnos)

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill?
Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd?
Mae Cynllun EFE yn chwilio am berson brwdfrydig i arwain a datblygu'r gwaith o gyflwyno'r Efengyl trwy gydweithio â chapeli, eglwysi ac ysgolion yn y pentrefi rhwng Y Wyddfa a Chaernarfon.
Am fanylion llawnach am y swydd a ffurflen gais, cysylltwch â John Roberts ar johntyhen@aol.com - neu ffoniwch (01286) 650450
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf 2023

# Y Parchg Bernant Hughes

Faswn i'n tybio y byddai pob gweinidog neu bregethwr, a rhaid cofio bod gwahaniaeth rhwng y ddau, yn cyflawni ei dasg o argyhoeddiad. Mae'n rhaid bod rhywbeth neu rywun wedi anfon person i gyflawni'r dasg. Dros amser daw'r patrwm o fyw a gweithredu yn rhan o batrwm o fyw eich bywyd, fel siwt o ddillad na fedrwch ei diosg, er bod rhaid rhywbryd.

Gwn am un sydd wedi wynebu'r foment honno, a'n gadael yn wacach fel unigolion, sef y Parchedig Bernant Hughes o eglwys Pendref, Rhuthun. Mae'r eglwys am fynegi ei phriod ddyled a'i diolch am flynyddoedd o ffyddlondeb, ac am bregethau a phregethu cyson dros yr amser hwnnw.



### Rhuthun

Gŵr o Gwm Tawe'n enedigol, ond a symudodd yn 1998 gyda'i briod Glenys i fyw yn Rhuthun, Dyffryn Clwyd ac ymaelodi yn eglwys Annibynnol Pendref, Rhuthun. Mae trigolion Rhuthun yn gyfarwydd â deheuwyr yn mudo i'w tref ac yn gadael eu hôl ar gymdeithas ac amgylchedd yr ardal. Un felly yw'r Parchedig Bernant Hughes. Fe gafwyd mwy na'r disgwyl yn ei bersonoliaeth. Mae yna wahaniaeth rhwng ysgrifennu pregeth a'i phregethu hi. Llwyddodd Bernant i wneud y ddau a chadw'r eglwysi i addoli Duw. Ond caeth ydym i'n diffygion corfforol wrth heneiddio a daeth yr awr i Bernant i ddweud ei bod yn amser tynnu llinell yn y tywod i gynnal oedfaon, a hynny'n 93 oed. Does dim peiriant ar gael i bwyso a mesur ei ddylanwad.

### Troeon yr yrfa

Ymunodd a'r llu awyr pan oedd yn ŵr ifanc; bu'n athro yn ysgol Cornwell, East Ham, Llundain. Yna yn ôl i Ystalyfera yn athro yn ysgol y Wern; cael dyrchafiad yn brifathro yn ysgol Mynachlog Nedd. Bu

*parhad ar y dudalen gefn*

# Barn Annibynnol

## PLANT HEDDIW – OEDOLION YFORY

'Ein plant yw ein dyfodol'. Tybed sawl gwaith y clywsom y geiriau hyn – o du llywodraethau a sawl man arall?

A phwy all wadu'r gwirionedd hwn. Beth fyddai hynt ein hiaith, ein heisteddfodau ac yn wir ein capeli a'n heglwysi oni bai am y to sy'n codi? Gwyddom yn dda fod capel heb blant yn derfynol. Os yw eglwys o ddifrif ynghylch ei dyfodol, yna bydd yn rhoi pwys mawr ar weinidogaeth plant. Ydy, mae plant yn 'adnawdd' allweddol ar lawer cyfrif.

Cawn ein hatgoffa yn aml hefyd am bwysigrwydd gwrando ar blant, yn enwedig gan fod pethau mor bwysig i'w dweud ganddynt. Mae gan blant hawl i'w lleisiau gael eu clywed a'u gwrando. Onid Cymru oedd y wlad gyntaf oll yn y Deyrnas Unedig i wneud egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUP) yn rhan o'r gyfraith?

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

### Dyfodol Plentyndod

Yn 2021, cyhoeddodd Cronfa Achub y Plant adroddiad yn dwyn y teitl *Dyfodol Plentyndod: Rhoi Cyfle i Blant roi eu Barn am y Dyfodol.* Gofynnwyd i blant 4-11 oed ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig i fynegi wrth yr ymchwilwyr eu safbwyntiau ar y ffordd y dylai plentyndod fod yn y dyfodol. Adlewyrchwyd ar faterion yn cynnwys bod yn hapus ac yn iach, dysgu a chwarae a'r byd o'u hamgylch. Roeddent yn dymuno i bob plentyn gael llawer o bethau yn y dyfodol. Dyma flas ohonyn nhw: Dylai pob plentyn gael lloches, bwyd iach, a dŵr ac aer glân; dylai pob plentyn gael teulu, ysgol a chymuned ofalgar; dylai pob plentyn hefyd allu mynegi eu hunain a'u hunigrywder, a dylent, ar yr un pryd, gael eu trin yn gyfartal a theimlo eu bod yn perthyn. Ai breuddwydion ffôl yw'r dyheadau hyn? Tybed? Gwyddom y bydd y penderfyniadau y mae oedolion yn eu gwneud yn awr yn effeithio ar blentyndod cenedlaethau'r dyfodol. Cymaint yw'n cyfrifoldeb ni ar hyn o bryd felly!

### Presenoldeb

Fe wyddom, yn ôl ystadegau diweddar, fod un ym mhob pump o'n plant yng Nghymru ar goll o'r ysgol yn rheolaidd. Cyn y pandemig, roedd cynnydd graddol mewn lefelau presenoldeb mewn ysgolion, ond mae'r ffigurau presenoldeb cyffredinol wedi gostwng yn sylweddol ers y pandemig. Mae hyn yn newyddion siomedig iawn gan fod yna gysylltiad hirsefydlog rhwng presenoldeb, cyrhaeddiad a lles. Does ryfedd felly fod y llywodraeth yn ystyried gwella lefelau presenoldeb mewn ysgolion fel blaenoriaeth genedlaethol.

### Iechyd Meddwl

Fe wyddom hefyd, yn ôl adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2022 i bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod tystiolaeth sylweddol bod iechyd meddwl plant ym Mhrydain yn gwaethygu. Mae data yng Nghymru'n gyfyngedig, er i arolwg a oedd yn cwmpasu Cymru yn 2019/20 ddarganfod bod 19% o ddisgyblion 11 i 16 oed wedi nodi symptomau 'uchel iawn' o salwch meddwl. Onid mater allweddol yw diogelu lles meddwl cenedlaethau'r dyfodol os ydym am ffynnu fel cenedl? Mae iechyd meddwl a llesiant yn fater mawr i lawer o bobl ifanc yng Nghymru. Siomedig felly yw darllen datganiad fel hyn yn y *Crynodeb o'r Adroddiad Iechyd Meddwl* a gyhoeddwyd gan Senedd Ieuenctid Cymru yn Nhachwedd 2022: 'Mae pobl ifanc yn dioddef anawsterau o ran eu llesiant meddyliol cymaint ag yr oeddent ddwy flynedd yn ôl, ac er ein bod yn cydnabod bod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi gweld heriau unigryw iawn, rydym o'r farn bod hyn yn bennaf oherwydd diffygion yn y ffordd y mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi.'

### Tlodi

Fe wyddom yn ogystal fod 27.5% o blant Cymru'n byw mewn tlodi. Mae hynny'n golygu fod yna blant o'n cwmpas ym mynd i'r ysgol dan lwgu, yn cael eu bwlio am wisgo hen wisg ysgol neu'n colli mas ar weithgareddau gyda'u ffrindiau. Mae tlodi plant ar ei waethaf ym Mlaenau Gwent (30.3%) a Cheredigion (30%), tra bo'r ffigwr yn dal i fod dros un ym mhob pump (21.4%) yn Sir Fynwy hefyd. Yn yr adroddiad *Strategaeth Tlodi Plant – Adroddiad Cynnydd 2022* (sy'n cwmpasu'r tair blynedd o fis Rhagfyr 2019): Crynodeb o'r cynnydd a wnaed i leihau nifer y plant sy'n byw mewn tlodi, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio dangos fel y mae mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb yn rhan hanfodol o'i ddiben. Gwnaeth fuddsoddiad sylweddol mewn amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni i hyrwyddo ffyniant, i atal a lliniaru tlodi ac i leihau nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Er gwaethaf y buddsoddiad hwn, mae'n cydnabod fod tlodi'n parhau i fod yn fater treiddiol. Mae Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru'n honni eu bod yn gwneud y gorau a allent i ddileu tlodi plant. Rhaid gofyn o ddifrif felly a yw'r gorau hwnnw'n ddigon da i sicrhau newid cadarnhaol i fywydau plant a'u teuluoedd yng Nghymru heddiw.

Caiff tlodi plant ei fesur fel unrhyw un sy'n byw mewn cartref sy'n derbyn llai na 60% o gyflog canolrifol (*median*) y wlad. Mae plant sy'n byw mewn cartref sy'n derbyn llai na £18,700 felly yn cael eu cyfrif fel plant sy'n byw mewn tlodi. Mae yna fesur arall o dlodi sy'n cael ei gyhoeddi – ystadegau sy'n cynnwys costau tai fel rhent, biliau dŵr, yswiriant tŷ a llog ar daliadau morgais. Gan gynnwys costau tai, mae'r ymchwil gan Brifysgol Loughborough yn awgrymu bod 79.8% o'r holl blant sy'n byw mewn tlodi yn byw mewn cartref lle mae'r penteulu mewn gwaith.

### Strategaethau

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio ar strategaeth newydd i daclo tlodi plant sydd i'w gyhoeddi'r flwyddyn hon. Does ond gobeithio y bydd yn nodi'n glir y camau gweithredu sydd eu hangen, yr amseroedd cyflawni a'r meini prawf ar gyfer llwyddiant. Gwyddom o brofiad mai un peth yw strategaeth ac mai peth arall yw gweithredu.

Plant yw 'adnawdd' mwyaf gwerthfawr y byd a'i obaith gorau am y dyfodol, meddai John F. Kennedy gynt. Fel y gwyddom hefyd mae gan Air Duw lawer iawn i'w ddweud wrthym am werth plant. Gwae ni felly os na chânt y flaenoriaeth a'r sylw a haeddant gennym heddiw!

**R. Alun Charles**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)




**'Cristnogaeth a Fi'**

**Anerchiad gan Ifan Gruffydd (Tregaron) ar nos Lun, Gorffennaf 31ain.**

**Capel y Tabernacl, Hendy-gwyn am 7.00 yr hwyr**

Pris mynediad - £3
yn cynnwys paned o de

Croeso mawr i bawb.

(Trefnir fel rhan o Wythnos Hendy-gwyn 2023)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Pererindota

Dyma aelodau'r Priordy Caerfyrddin, Cana a Bancyfelin, Heol Awst ac Elim ar bererindod i Sain Ffagan ar 18 Mehefin. Cafwyd diwrnod ardderchog ac oedd yn cynnwys oedfa yng nghapel Penrhiw yng ngofal y Parchg Beti-Wyn James gydag anerchiad diddorol Peter Hughes Griffiths o eglwys y Priordy a oedd yn bresennol yn yr oedfa olaf yng nghapel Penrhiw, ger Drefach Felindre cyn i'r capel gael ei symud i Sain Ffagan. Mwynhawyd pryd o fwyd ardderchog yn y Bridge, Llangennech ar y ffordd adref. Diwrnod i'w gofio.




# Cenhadon yn y Creunant

Hyfrydwch oedd cael croesawu cenhadon o Frasil i Saron Creunant ar ddydd Sadwrn 8 Gorffennaf. Cafwyd noson hyfryd o gymdeithasau cynnes oedd wedi yn adlewyrch y neges Salm 133.

> Llawenhewch yn yr ARGLWYDD, chwi rai cyfiawn; i'r rhai uniawn gweddus yw moliant. Molwch yr ARGLWYDD â'r delyn, canwch salmau iddo â'r offeryn dectant; canwch iddo gân newydd, tynnwch y tannau'n dda, rhowch floedd.
>
> (Salm 33:1–3)

Cafwyd oedfa o fawl gyda Gabriel, un o'r cenhadon, yn pregethu yn effeithiol ac yna fe aeth y gynulleidfa i'r festri am gyri a reis blasus.

Yn wir, fe ddaw'r cenhadon i Gymru yn flynyddol gyda DNA Mission UK ac maent yn gweithio o eglwys Bethesda, Cwrt Sart tra ar genhadaeth yma yn Sir Castell Nedd.

Gweddïwn y bydd mwy o genhadon yn dod o Frasil yma i Gymru i'n cynorthwyo gyda'n gwaith dros Grist y Groes.

**Rhys Locke**



# Y Parchg Bernant Hughes – *parhad*

hefyd yn gaplan i faer Brycheiniog ac yn gwasanaethu wrth sefydlu'r Maer a phregethu yn y dref honno. Er y penderfyniad i dynnu llinell yn y tywod deil Bernant yn aelod o eglwys Pendref ac o'r gynulleidfa drwy gyfrwng y we a'r dechnoleg gyfoes, a hir y parhaed felly. Gwn fod yr olwynion yn dal i droi a'r pregethau yn magu yn ei feddwl, a phwy a ŵyr na chawn glywed ambell un eto.

Ein bwriad fel eglwys ym Mhendref yw talu teyrnged i Bernant am ei gefnogaeth ddiflino, yn pregethu, yn cynghori ac yn cyfrannu mewn sawl ffordd at fywyd yr eglwys. Edrychwn ymlaen o hyd at fwynhau ei gwmni a'i syniadau i'r dyfodol.

**A. Brian Evans**

# Eglwys yr Alltwen
## Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

Mae Rhydwen James ysgrifennydd yr eglwys wedi penderfynu ymddeol ar ôl cyflawni'r gwaith gyda brwdfrydedd am dros 38 o flynyddoedd. Gwasanaethodd yn ystod gweinidogaeth y diweddar Dr Vivian Jones, Gerwyn Jones a'r gweinidog presennol y Parchg Gareth Morgan Jones. 'Rydym yn ffodus fel eglwys fod gennym ddiaconiaid ac aelodau gweithgar ac fe etholwyd Mrs Delma James yn ysgrifennydd newydd a dymunwn yn dda iddi.'

Ei chyfeiriad yw:
30 Coedcae, Pontardawe, Abertawe SA8 4PE.
Ffôn: (01792) 865872
E-bost: delmajames@hotmail.com

# Eglwys Nebo, Felindre, Abertawe

Cynhelir oedfa sefydlu
Y Parchg Rhys Locke
fel bugail ar yr eglwys

**Sadwrn 29 Gorffennaf 4.00 y.p.**

Bydd lluniaeth ar ôl yr oedfa
yn y neuadd.

Croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*